

## Hanner Tymor Mis Chwefror: Cwrs Dawns Dwys Ar-lein i leuenctid

Mynnwch doriad o'r drefn ddyddiol ac ymuno â Ballet Cymru am chwa hwyliog o *ballet* yn ystod hanner tymor mis Chwefror.

**15-17 Chwefror 2021**

**1.30pm-3.00pm**

**O'n stiwdio ni i'ch cartref chi**

Yn agored i ddawnsywyr sydd â phrofiad blaenorol o *ballet*.

Yr oedran a argymhellir: 11+

**Y cyfraniad a awgrymir £15**

Ymunwch â Ballet Cymru yn y chwa fer hon o hwyl greadigol sy'n edrych ar *ballet* sy'n wirioneddol symud (hyd yn oed mewn gofodau bach yn eich cartref), yn ogystal ag arddulliau dawns creadigol, cyfoes a Bollywood.

Arweinir y sesiynau gan:

Y Swyddog Mynediad ac Allgymorth:  
Louise Lloyd

Dawnsywyr y cwmni:

Beth Meadway  
Sanea Singh  
Isobel Holland  
Andrea Battaglia

Mae Ballet Cymru yn gwmni cynhwysol sy'n croesawu ceisiadau gan ddawnsywyr ag anabledau, ynghyd â'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Neilltuir lleoedd ar sail y cyntaf i'r felin, yn amodol ar gymhwysedd ar gyfer y cwrs.

I wneud cais, llenwch y ffurflen gais a'i hanfon at:

**Louise Lloyd – [louiselloyd@welshballet.co.uk](mailto:louiselloyd@welshballet.co.uk)**

**Erbyn dim hwyrach na dydd Iau 11 Chwefror 2021.**

**Ni chaiff unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.**

**Nodwch na fyddwch, efallai, yn cael ymateb ar unwaith, ond byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl. Diolch i chi am eich amynedd yn ystod y cyfnod prysur hwn.**

Mae'r lleoedd yn brin, felly ewch ati i ymgeisio ar fyrder er mwyn osgoi cael eich siomi!

Cefnogir gan



Darllenwch yr ymwadiad isod cyn llenwi'r ffurflen gydsynio ar y dudalen nesaf a'i dychwelyd.

**Sesiynau**  
**tiwtorial**  
**ar-lein gyda** **balletcymru** **with**  
**online**  
**tutorials**

**YMWADIAD:**

Er budd eich diogelwch, gwiriwch â'ch meddyg cyn dechrau ar unrhyw drefn ymarfer corff newydd, a sicrhewch eich bod yn gwneud yr ymarfer corff yn unol â'ch galluoedd a'ch lefel ffïtrwydd. Rydym yn caru bale ac am sicrhau eich bod chithau'n ei garu hefyd!

Trwy gymryd rhan yn rhaglen ymarfer corff Ballet Cymru, byddwch yn ysgwyddo unrhyw risg o anaf a allai ddeillio o hynny. Yn amlwg, byddwn yn ymdrechu i'ch cadw mor ddiogel â phosib! Ni all Ballet Cymru, ein hyfforddwyr, na'u partion fod yn atebol am unrhyw hawliadau neu iawndal am anafiadau sy'n deillio o'ch penderfyniad i ryngweithio â'r sianel hon. Nid ydym chwaith yn ysgwyddo unrhyw atebolrwydd a achosir gan esgeulustod bwriadol neu anfwriadol. Felly, byddwch yn ddiogel a mwynhewch!

**DISCLAIMER:**

In the interest of your safety, please check with your doctor before beginning any new exercise regime and ensure you exercise according to your capabilities and fitness levels. We love ballet and we want to ensure that you do to!

By participating in Ballet Cymru's exercise programme, you are assuming any risk of injury that might result. Obviously, we will endeavour to keep you as safe as possible! Ballet Cymru, our instructors, and their parties cannot be liable for any injury claims or damages resulting from your interaction with this channel. We further disclaim any liability caused by intentional or unintentional negligence. So please be safe and enjoy!

Yn rhoi mynediad i bawb at gelfyddyd bale


[www.welshballet.co.uk](http://www.welshballet.co.uk)

Elusen Rhif/Charity No. 1000855

Creating access for all to the art of Ballet

[www.welshballet.co.uk](http://www.welshballet.co.uk)

Charity No./ Elusen rhif 1000855 Registered in England and Wales / Cofrestrredig yn Lloegr ac yng Nghymru. Gwent Ballet Theatre Ltd / Cyf. 02535169





# Hanner Tymor Mis Chwefror: Cwrs Dawns Dwys Ar-lein i Ieuenctid

## FFURFLEN GAIS


Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i Ballet Cymru erbyn 10 Chwefror 2021, fan bellaf.

Manylion yr Ymgeisydd			
Enw llawn:			
Oedran:		Gwlad Breswyl:	
Cod post:		Cyfeiriad e-bost:	
Enw'r rhiant/gwarcheidwad (os yw'r unigolyn o dan 18):			
Ysgol <i>Ballet</i> :			
Yn fyr, rhestrwch eich profiad o ddawnsio, gan gynnwys y radd <i>ballet</i> bresennol yr ydych yn astudio ar ei chyfer:			
Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi at <b>Louise Lloyd: <a href="mailto:louiselloyd@welshballet.co.uk">louiselloyd@welshballet.co.uk</a></b>			
Sut y clywsoch am y gweithgaredd hwn? e.e. y cyfryngau cymdeithasol, ar dafod leferydd	.....		
<b>Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i Ballet Cymru erbyn 10 Chwefror 2021, fan bellaf.</b>			

CYLCHLYTHYR BALLETT CYMRU, YN RHAD AC AM DDIM	DOD YN FFRIND I NI!
<p>Mae ein e-gylchlythyr yn llawn dop o'r newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf, ac mae'n rhad ac am ddim! I gofrestru ar gyfer ein rhestr bostio, ewch i'r wefan hon: <a href="http://www.welshballet.co.uk">www.welshballet.co.uk</a></p> <p>Trwy ymuno â'r rhestr bostio, rydych yn cydsynio i gael gohebiaeth reolaidd trwy e-bost gan Ballet Cymru, a gellwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg. Dim ond eich cyfeiriad e-bost a ddefnyddir i'r diben hwn.</p>	<p><b>Beth am gefnogi gweithgareddau Ballet Cymru trwy ymuno â'n Cynllun Aelodaeth Ffrindiau, sy'n ddim ond £15 y flwyddyn*?</b></p> <p>*Mae'r Aelodaeth Iau ar gyfer pobl ifanc 16 oed ac iau, ac mae yna hefyd Aelodaeth Oedolion ac Aelodaeth ar y Cyd ar gael. I wneud cais am Aelodaeth Ffrindiau, cysylltwch â <a href="mailto:patriciavallis@welshballet.co.uk">patriciavallis@welshballet.co.uk</a> i gael rhagor o fanylion, neu gofynnwch i aelod o dîm Ballet Cymru</p>
<b>POLISI PREIFATRWYDD A DIOGELU DATA BALLETT CYMRU</b>	

[www.welshballet.co.uk](http://www.welshballet.co.uk)

Charity No./ Elusen rhif 1000855 Registered in England and Wales / Cofrestredig yn Lloegr ac yng Nghymru. Gwent Ballet Theatre Ltd / Cyf. 02535169



CYLCHLYTHYR BALLET CYMRU, YN RHAD AC AM DDIM	DOD YN FFRIND I NI!
<p>Mae ein e-gylchlythyr yn llawn dop o'r newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf, ac mae'n rhad ac am ddim! I gofrestru ar gyfer ein rhestr bostio, ewch i'r wefan hon: <a href="http://www.welshballet.co.uk">www.welshballet.co.uk</a></p> <p>Trwy ymuno â'r rhestr bostio, rydych yn cydsynio i gael gohebiaeth reolaidd trwy e-bost gan Ballet Cymru, a gellwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg. Dim ond eich cyfeiriad e-bost a ddefnyddir i'r diben hwn.</p>	<p><b>Beth am gefnogi gweithgareddau Ballet Cymru trwy ymuno â'n Cynllun Aelodaeth Ffrindiau, sy'n ddim ond £15 y flwyddyn*?</b></p> <p>*Mae'r Aelodaeth lau ar gyfer pobl ifanc 16 oed ac iau, ac mae yna hefyd Aelodaeth Oedolion ac Aelodaeth ar y Cyd ar gael. I wneud cais am Aelodaeth Ffrindiau, cysylltwch â <a href="mailto:patriciavallis@welshballet.co.uk">patriciavallis@welshballet.co.uk</a> i gael rhagor o fanylion, neu gofynnwch i aelod o dîm Ballet Cymru</p>
<p>Ni fyddwn fyth yn rhannu eich manylion â thrydydd partïon heb eich caniatâd. Bydd unrhyw ddata personol a ddaw i law yn cael eu cadw mewn cydymffurfedd â Pholisi Preifatrwydd a Diogelu Data Ballet Cymru, cyfreithiau Diogelu Data cyfredol y Deyrnas Unedig, a'r GDPR, a bydd mynediad yn cael ei gyfyngu i staff awdurdodedig yn unig. Cedwir y data dim ond i'r dibenion penodol y mae'r unigolyn wedi darparu ei fanylion ar eu cyfer. Mae gan unigolion yr hawl i wneud cais am i'w data personol gael eu dileu neu eu cywiro, i wrthwynebu i'r data, neu i gael mynediad atynt, a hynny ar unrhyw adeg. Ni fydd data ar unigolion o dan 18 oed yn cael eu casglu heb wneud cais ymlaen llaw am ganiatâd y rhiant/gwarcheidwad a enwir ar y ffurflen gais.</p>	

Mawrth 2020

Llenwch y ffurflen gydsynio hon a'i dychwelyd at [louiselloyd@welshballet.co.uk](mailto:louiselloyd@welshballet.co.uk)

Cyfeiriad e-bost ar gyfer dolenni'r cwrs:	
Cadarnhewch a oes gennych anghenion ychwanegol neu anableddau, neu a ydych am roi gwybod i ni am anafiadau neu unrhyw beth a all effeithio ar y ffordd y byddwch yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarperir:	

## Cyswllt mewn Argyfwng

Rhowch fanylion rhywun heblaw'r cyfranogwr a fyddai'n gyswllt gorau, pe bai angen, ynghylch cymryd rhan yn y cwrs.

Enw cyswllt mewn argyfwng:	
Rhif cyswllt mewn argyfwng:	
Rhif cyswllt ychwanegol (dewisol):	

## Cydsyniad o ran y Cyfryngau

Trwy gymryd rhan yn y cwrs hwn, rydych yn cydsynio'n awtomatig i Ballet Cymru dynnu lluniau a chlipiau fideo a defnyddio'r rhain, ynghyd â ffotograffau neu glipliau fideo y byddwch chi'n eu darparu, i hyrwyddo a rhannu gweithgareddau addysg Ballet Cymru\*.


\*Gall ffotograffau a fideos gael eu defnyddio yn ystod y gweithgareddau i roi cyhoeddusrwydd i raglenni addysgol Ballet Cymru, ac ar gyfer adrodd i gyllidwyr a chefnogwyr yr elusen. Gallai hyn gynnwys defnyddio'r cyfryngau ar wefan swyddogol a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cwmni, a rhannu â chyfryngau eraill a ddewisir yn ofalus, e.e. papurau newydd lleol, ond nid ydym yn gyfrifol am weithgarwch unrhyw drydydd parti. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl neu wneud cais i gael mynediad at ddata a ddarperir unrhyw bryd, yn unol â rheoliadau cyfredol y Deyrnas Unedig.

## Ticiwch y ddau flwch er mwyn cael eich derbyn ar y cwrs:

- Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen ymwadiad Ballet Cymru a'm bod am fwrw ati i ymgofrestru ar Hanner Tymor Mis Chwefror: Cwrs Dawns Dwys Ar-lein i Ieuencid.

[www.welshballet.co.uk](http://www.welshballet.co.uk)

Charity No./ Elusen rhif 1000855 Registered in England and Wales / Cofrestredig yn Lloegr ac yng Nghymru. Gwent Ballet Theatre Ltd / Cyf. 02535169



Rwyf yn deall ac yn cadarnhau fy mod i, trwy gymryd rhan yn Hanner Tymor Mis Chwefror: Cwrs Dawns Dwys Ar-lein i Ieuenctid, yn cydsynio i ffotograffau a fideos ohonof gael eu defnyddio gan Ballet Cymru i hyrwyddo a rhannu gweithgareddau addysg Ballet Cymru.

Datganiad Preifatrwydd: Bydd yr holl ddata personol a ddarperir yn cael eu defnyddio i ddiben y gweithgaredd penodol hwn yn unig, ac ni chânt eu rhannu/datgelu unrhyw bryd. O dan reoliadau Diogelu Data a Phreifatrwydd cyfredol, bydd y data a ddarperir yn cael eu rheoli yn unol â Pholisi Diogelu Data Ballet Cymru, ac mae gennych hawl cysylltu â ni i gael mynediad at unrhyw ddata, unrhyw bryd, a'u golygu neu eu dileu.

<b>Llofnod:</b> <b>(rhiant/gwarcheidwad os</b> <b>yw'r unigolyn o dan 18</b> <b>oed)</b>		<b>Dyddiad:</b>	
---	--	-----------------	--

Anfonwch y ffurflen, wedi'i llenwi, at Louise Lloyd: [louiselloyd@welshballet.co.uk](mailto:louiselloyd@welshballet.co.uk)